Travis Perkins Managed Services

Sustainability Guidance Sheet

Energy Saving Grants & Funding

Getting Involved

We're keen to hear your views on how we could promote sustainability and use skills in the community to produce energy efficiency measures such as draught excluders etc. Visit your local community hub for further information.

Introduction

There are a few ways you may wish to explore to help fund improvements to your home.

Nest

The Nest scheme offers advice and support on energy efficiency, budgeting, energy tariffs and benefit checks to homes across Wales. In addition the scheme offers qualifying householders (i.e. those receiving a means-tested benefit etc) a range of improvement measures to help heat their homes more efficiently and save them money on their energy bills.

You can call Nest on 0808 808 2244.

Welsh Government Warm Homes Scheme

The Welsh Government Warm Homes scheme provides insulation and efficient heating systems to the homes of households who are struggling with the cost of high energy bills, making homes warmer, more comfortable and more affordable to heat.

Welsh Government Warm Homes (Arbed) is funded by the Welsh Government and managed by Arbed am Byth. The aim of the scheme is to install appropriate energy efficiency measures in properties across Wales, to help people who are struggling to effectively heat their home.

Visit their website http://www.arbedambyth.wales/eng/home.html to check your eligibility.

Western Power Distribution Power Up Scheme

Western Power provides four Power Up advice hubs across their operating regions to support vulnerable customers and address fuel poverty. The Energy Saving Trust delivers the Power Up service across South Wales and provides advice to customers on the Western Power priority service register by phone and via home visits.

The advice Power Up scheme helps customers save energy, reduce their bills and benefit from a range of additional support services.

Check out the Power Up website here:

https://www.westernpower.co.uk/customers-and-community/priority-services/power-up

Renewable Heating Initiative (RHI) / Clean Heat Grant

The Domestic Renewable Heat Incentive (Domestic RHI) is a UK government financial incentive to promote the use of renewable heat. People who successfully join the scheme and stick to its rules receive quarterly payments for seven years for the amount of clean, green renewable heat it's estimated their system produces. From 2022 this will change to the Clean Heat Grant and, instead of a 'tariff' award for heat produced, there will be an opportunity to claim grants to support the cost of the installation of renewable heating systems.

Check out the Ofgem website for further details on the RHI

Further information

You can visit the community hub in Bethesda if you would like further advice sheets regarding sustainability and improving your property. You can also check out the Energy Savings Trust website for specific advice on energy efficiency.

Please note that the above information is given as guidance only. Travis Perkins Managed Services, Cyd Ynni and Dyffryn Gwyrdd are not liable for the validity of any information contained herein, nor are they liable for any consequences, losses, damages or otherwise arising from the above information or from any action or decision taken as a result of such information. The information does not constitute advice and any information ought to be independently verified beforehand.

Travis Perkins Managed Services

Canllawiau Cynaliadwyedd

Grantiau ac Arian ar gyfer Arbed Ynni

Cymryd Rhan

Rydym eisiau clywed eich barn ar sut y gallwn hybu cynaliadwyedd a defnyddio'r sgiliau yn y gymuned i greu mesurau ynni effeithlon fel offer atal drafft ayyb.

Ewch i'ch hwb cymunedol lleol i gael mwy o wybodaeth.

PARTNERIAETH OGWEN | CYD YNNI | DYFFRYN GWYRDD

Cyflwyniad

Mae yna sawl peth i chi edrych arnynt er mwyn eich helpu i ariannu gwelliannau i'ch cartref.

Nyth

Mae cynllun Nyth yn cynnig cyngor a chefnogaeth ar effeithlonrwydd ynni, cyllidebu, tariffau ynni a gwiriadau budd-daliadau i gartrefi ledled Cymru. Mae'r cynllun hefyd yn cynnig ystod o fesurau gwella i'r rhai sy'n gymwys (h.y. y rhai sy'n derbyn budd-dal prawf modd ac ati) i helpu i gynhesu eu cartrefi yn fwy effeithlon ac arbed arian iddynt ar eu biliau ynni.

Gallwch ffonio Nyth ar 0808 808 2244.

Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru

Mae cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn darparu systemau inswleiddio a gwresogi effeithlon i gartrefi sy'n cael trafferth gyda chost biliau ynni uchel, gan wneud cartrefi yn gynhesach, yn fwy cyfforddus ac yn fwy fforddiadwy i'w gynhesu.

Ariennir Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru (Arbed) gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei reoli gan Arbed am Byth. Nod y cynllun yw gosod mesurau effeithlonrwydd ynni priodol mewn eiddo ledled Cymru er mwyn helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartref yn effeithiol.

Ewch i'w gwefan http://www.arbedambyth.wales/eng/home.html i weld os ydych yn gymwys.

Cynllun Power Up gan Western Power Distribution

Mae Western Power yn darparu pedwar hwb cyngor Power Up ar draws eu rhanbarthau gweithredu i gefnogi cwsmeriaid bregus a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn darparu'r gwasanaeth Power Up ledled De Cymru ac yn darparu cyngor i gwsmeriaid ar gofrestr gwasanaeth blaenoriaeth Western Power dros y ffôn a thrwy ymweliadau cartref.

Mae'r cynllun cyngor Power Up yn helpu cwsmeriaid i arbed ynni, lleihau eu biliau ac elwa ar ystod o wasanaethau cymorth ychwanegol.

Edrychwch ar wefan Power Up yma:

https://www.westernpower.co.uk/customers-and-community/priority-services/power-up

Menter Gwresogi Adnewyddadwy (RHI) / Grant Gwres Glân

Mae'r Fenter Gwresogi Adnewyddadwy Domestig (RHI Domestig) yn gymhelliant ariannol gan lywodraeth y DU i hyrwyddo'r defnydd o wres adnewyddadwy. Mae pobl sy'n ymuno â'r cynllun yn llwyddiannus ac yn cadw at y rheolau yn derbyn taliadau chwarterol am saith mlynedd am faint o wres adnewyddadwy glân, gwyrdd yr amcangyfrifir y mae eu system yn ei gynhyrchu. O 2022 bydd hyn yn newid i'r Grant Gwres Glân ac, yn lle dyfarniad 'tariff' am wres a gynhyrchir, bydd cyfle i hawlio grantiau i gefnogi cost gosod systemau gwresogi adnewyddadwy.

Edrychwch ar wefan Ofgem i gael mwy o fanylion am yr RHI

Gwybodaeth bellach

Gallwch ymweld â'r Hwb Cymunedol ym Methesda os ydych eisiau canllawiau pellach ar gynaliadwyedd a gwella eich eiddo. Gallwch hefyd edrych ar wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am gyngor penodol ar effeithlonrwydd ynni.

Nodwch fod y wybodaeth uchod yn cael ei rhoi fel arweiniad yn unig. Nid yw Travis Perkins Managed Services, Cyd Ynni na Dyffryn Gwyrdd yn atebol am gywirdeb unrhyw wybodaeth sydd yma ac nid ydynt yn gyfrifol am unrhyw ganlyniadau, colledion, difrod neu unrhyw beth arall sy'n codi o'r wybodaeth uchod nac o unrhyw weithred neu benderfyniad a gymerir o ganlyniad i wybodaeth o'r fath. Nid yw'r wybodaeth yn gyngor a dylai unrhyw wybodaeth gael ei dilysu yn annibynnol ymlaen llaw.